# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Llandaff House**

**6 HEOL MWRWG**
**Llangennech**
**Llanelli**
**SA14 8UA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Llandaff House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cathedral Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Medi, 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae Llandaff House yn darparu gofal a chymorth sydd wedi'u personoli, gan dîm o staff gofal sy'n llawn cymhelliant ac sy'n ymrwymedig, ac sydd wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael a chânt eu trin ag urddas a pharch.  Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan y tîm rheoli a gan ei gilydd. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n ddiogel. Mae'r tîm rheoli yn hygyrch i'r bobl a chaiff y gwasanaeth ei werthfawrogi gan y rhai hynny sy'n ei ddefnyddio. Mae'r unigolyn cyfrifol yn aml yn bresennol yn y gwasanaeth ac yn treulio amser yn siarad â'r bobl a'r staff.

Nodwyd meysydd i'w gwella o ran yr adolygiadau o gynlluniau personol a hyfforddiant y staff gofal.

## Llesiant

Roedd y bobl a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y ffordd y caiff y gofal ei ddarparu gan y staff gofal yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael bod mor annibynnol â phosibl. Caiff y bobl eu cefnogi i ddewis ble a sut yr hoffent dreulio eu hamser. Mae cydgysylltydd gweithgareddau ar gael sy'n trefnu gweithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp ar gyfer y bobl. Mae dewis ar gael i'r bobl ar amseroedd bwyd a chânt eu cefnogi gan y staff arlwyo i gael eu hoff brydau bwyd. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym "*It is quite joyful here. The food is marvellous, I love the chips."* Dywedodd cynrychiolydd teulu unigolyn wrthym, "*They have things going on for people all the time."*

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch ac maent yn derbyn cymorth priodol, caredig a gofalgar gan staff gofal y maent yn eu hadnabod yn dda. Gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg, ag aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'r staff yn mwynhau treulio amser gyda'r bobl. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"I am happy here."* Dywedodd cynrychiolydd teulu wrthym, *"They speak with [my relative] clearly and in a positive manner. They do show a positive attitude towards [my relative] and help make [my relative] feel good about things."*

Mae gan y bobl lais o fewn y gwasanaeth. Caiff adborth rheolaidd ei geisio gan y bobl a'u cynrychiolwyr ar ansawdd y gofal a chymorth yn y gwasanaeth. Nid yw'r bobl a'u cynrychiolwyr bob amser yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu sut caiff y gofal a'r cymorth ei roi i ddiwallu anghenion unigol y bobl.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel ac sy'n cael eu cefnogi'n dda, er nad yw pob aelod o'r staff gofal wedi cael yr hyfforddiant gofynnol hyd yma. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu, neu yn y broses o wneud cais. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn ac maent yn hyderus y bydd y gwasanaeth yn ymateb.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"I like it here… the staff are all nice."* Mae'r broses ar gyfer derbyn pobl newydd i mewn i'r gwasanaeth wedi ei chynllunio'n dda. Mae'r cynlluniau personol wedi'u hysgrifennu'n glir ac yn cynnwys gwybodaeth fel dewisiadau personol, asesiadau risg, a chynlluniau manwl ar sut y dylid darparu'r gofal a'r cymorth. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses gychwynnol o gynllunio gofal. Mae cynlluniau personol y bobl yn rhoi cyfarwyddyd i'r staff er mwyn iddynt ddarparu gofal a chymorth mewn ffordd gyson. Dywedodd cynrychiolydd teulu wrthym, "*We cannot fault the care package or staff. They make sure [my relative] is safe and comforted."* Dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym *"The residents are always put first here. They are safe and happy."* Fodd bynnag, nid yw'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn gyson yn y broses o adolygu eu cynlluniau personol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth unigol i'r bobl fel y nodir yn eu cynlluniau personol. Mae'r staff gofal yn wybodus am y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn ymdrin â nhw mewn ffordd empathetig ac amyneddgar.Mae'r bobl yn dewis ble yr hoffent dreulio eu hamser drwy gydol y dydd. Gwelsom fod yn well gan rai pobl aros yn eu hystafelloedd eu hunain tra bod eraill yn eistedd yn y lolfeydd cymunedol. Mae cydgysylltydd gweithgareddau wedi ei gyflogi, sy'n trefnu gweithgareddau un-i-un ar gyfer y bobl yn ogystal â threfnu amrywiaeth o weithgareddau grŵp. Dywedodd person sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"It is up to us if we want to join in with activities."*

Caiff iechyd a llesiant corfforol y bobl ei hyrwyddo. Mae gweithwyr cymdeithasol a gofal iechyd proffesiynol ar gael i'r bobl pan fo angen. Mae'r gwasanaeth yn deall cyflyrau iechyd y bobl, y gofal sydd ei angen arnynt ac yn gallu adnabod newidiadau o ran golwg ac ymddygiad arferol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Mae trefniadau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel. Dywedodd cynrychiolydd iechyd wrthym, "*[Staff] know people inside out. They use their own initiative... They get in touch if there are concerns. They identify what people need."*

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl drwy gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau clir. Mae'r gwasanaeth yn ymdrin â materion sy'n codi a allai effeithio ar ofal a chymorth y bobl yn gyflym ac yn briodol.

Mae'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn dda. Mae pob aelod o'r staff gofal yn cael hyfforddiant priodol ar reoli heintiau. Dywedodd y bobl a'u cynrychiolwyr wrthym fod y staff gofal yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol (PPE) perthnasol a'u bod yn teimlo'n ddiogel.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r cartref yn groesawgar, yn gyfforddus, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r cartref yn ddigon mawr i gynnig ardal ar gyfer cymdeithasu ac i roi preifatrwydd, gydag ardaloedd byw cymunedol sy'n gyfforddus. Gall y bobl gwrdd ag aelodau o'u teuluoedd a'u ffrindiau pryd bynnag y dymunant, yn eu hystafelloedd eu hunain neu mewn ardaloedd cyfarfod preifat. Caiff yr ystafelloedd gwely eu haddurno yn unol â dewisiadau a diddordebau'r bobl. Mae gan yr unigolion ffotograffau o'u hanwyliaid, lluniau, ac ornamentau.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel i'r bobl. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i oruchwylio iechyd a diogelwch y gwasanaeth. Mae trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff gwiriadau eu cwblhau o amgylch y cartref i nodi a mynd i'r afael â materion yn gyflym. Gwneir gwaith cynnal a chadw rheolaidd. Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod yn rhaid i ymwelwyr ganu cloch er mwyn cael mynediad i'r gwasanaeth.

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith sy'n sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn rhag y risg o dân. Caiff y larymau tân eu profi'n rheolaidd yn y cartref ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Cynhelir asesiadau risg tân, ymarferion tân a gwiriadau larymau tân mor aml ag sy'n ofynnol. Mae gan y bobl sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng er mwyn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i helpu'r bobl i adael yn ddiogel pe bai argyfwng.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Gwelsom orsafoedd gyda chyfarpar diogelu personol (PPE) a hylif diheintio dwylo o amgylch y cartref. Cafodd y cartref sgôr o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n golygu bod y safonau hylendid yn dda iawn. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o brydau cartref ffres y gallant ddewis o'u plith.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Rhoddir gwybodaeth gywir i'r bobl am y gwasanaeth. Canllaw ysgrifenedig sy'n rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu perthnasau ac eraill. Ceir datganiad o ddiben sy'n disgrifio sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn gwneud yn siŵr bod y bobl yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth, ac yn chwilio am ffyrdd i wella. Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau effeithiol ar waith i gasglu adborth gan y bobl a'r staff gofal, er mwyn llywio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal ac yn nodi sut y gellir gwella a datblygu'r gwasanaeth. Mae rheolwr y gwasanaeth yn brofiadol, yn meddu ar gymwysterau addas, ac wedi'i gofrestru'n briodol â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol. Caiff y rheolwr ei gefnogi gan ddirprwy reolwr sy'n helpu i redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r tîm rheoli mewn cysylltiad rheolaidd â'r Unigolyn Cyfrifol. Dywedwyd wrthym fod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yno bob amser i helpu neu gynghori'r staff gofal pan fo angen. Dywedodd cynrychiolydd teulu wrthym, *“I feel if I had concerns, [management] are willing and cooperative to resolve things.”* Dywedodd aelod o'r staff wrthym, “*The management are great. We are a good team.”*

Mae digon o staff sy'n addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Gwnaethom adolygu rota staffio'r gwasanaeth a gwelsom fod digon o staff gofal ar gael yn y gwasanaeth i roi gofal a chymorth. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ac yn gyfredol. Mae cofnodion recriwtio'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y staff gofal wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru. Gwelsom hefyd nad yw'r gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth, a bod llawer o'r aelodau o staff wedi bod yno ers cryn amser.

Mae rhaglenni sefydlu'n cael eu cwblhau, ond mae angen gwneud gwelliannau. Mae staff sydd newydd gael eu penodi yn cysgodi shifftiau, mae polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant ar gael iddynt, a chânt eu profi ar eu cymwyseddau, ond nid yw'r hyfforddiant a ddarperir yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda'u rheolwr llinell. Mae'r gefnogaeth un-i-un hon yn rhoi cyfle i aelodau o'r staff drafod unrhyw bryderon neu anghenion hyfforddiant a allai fod ganddynt, ac i'w rheolwr llinell roi adborth ar eu perfformiad yn y gwaith.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Ni all darparwr y gwasanaeth fod yn sicr bod pob aelod o'r staff gofal yn cael hyfforddiant sy'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn llawn. | Newydd |
| 16 | Ni all darparwr y gwasanaeth fod yn sicr bod y bobl a/ neu eu cynrychiolwyr wedi cael eu cynnwys fel rhan o'r broses o adolygu'r gofal a chymorth a ddarperir yn y gwasanaeth. | Heb Gyflawni |
| 35 | Ni allai'r darparwr ddangos hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol am unrhyw fylchau yng nghyflogaeth yr holl gyflogeion yn y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |
| 80 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi dadansoddi'r wybodaeth o'r archwiliadau meddyginiaeth yn effeithiol, ac nid yw wedi cydnabod mater sy'n codi'n gyson mewn perthynas â llofnodion coll. Gallai hyn effeithio ar ddiogelwch a llesiant y bobl. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol chwaith yn dangos tystiolaeth ei fod wedi siarad â'r unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth ac sy'n ei ddefnyddio. Mae angen i adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol gynnwys gwybodaeth fwy manwl i ddangos bod y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r rheolwr wedi cael ei oruchwylio ers cael ei ddyrchafu i fod yn rheolwr ym mis Chwefror 2022. Nid yw'r staff wedi bod yn cael sesiynau goruchwylio unigol bob tri mis, ac nid yw rhai aelodau o'r staff wedi cael eu goruchwylio ers sawl mis. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/01/2024